$4
Tachwedd 2008

Llais Yr Andes

Newyddion Cymraeg Trevelin ac Esquel

Llongyfarchiadau i Gladys Jones de Cid am ddod yn Nain. Pob hwyl i Victoria, Marina a'r teulu.

Dymuniadau gorau i Jessica Jones a Jose Luis Petersen ar eu priodas ar y 6ed o Rhagfur 2008.

Da iawn i Gôr Seion Esquel am gipio'r wobr gyntaf ac i Dawnswyr Trevelin am ennill yr ail wobr yn Eisteddfod y Wladfa, Trelew.

Y "Llais" yn dathlu 10 mlynedd

Ym mis Mawrth 1997 ganwyd gefeilliaid yn yr Andes, dwy chwaer fach sef Ysgol Gymraeg Esquel ac Ysgol Gymraeg Trefelin. Er mai gefeilliaid ydynt meant yn wahanol i'w gilydd mewn rhai pethau ac fel baban newydd ei eni, mae'r ddwy ohonynt wedi cael gwaith dannedd yn eu tro! Ond erbyn hyn maen nhw'n cropian ac yn dechrau cerdded (yn eu Blaenau, wrth gwrs!). Wnewch chi addo eu bod yn cael pob chwarae teg i ddatblygu ac i dyfu yn ferched cryfion. Bwydwch nhw a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael trosglwyddiad gwaed o dro i dro. Rhowch gyfle iddynt i fentro fel y meant wedi'i wneud eisoes drwy gynnal "Gŵyl o Hwyl" a thrwy gynhyrchu cylchlythyr Cymraeg fel hwn - cyntaf o'i fath yn y Wladfa - Wrth gau'r ail bennod yn eu hanes ga i ddymuno llwyddiant a hi roes i'r ddwy ohonynt, ond cofiwch, mae eu dyfodol yn eich dwylo chi, ac mae'r rheiny yn ddwylo diogel, gobeithio.
(Rhif 1, Llais Yr Andes – Tachwedd 1998 gan Hazel Charles Evans)

Mae Llais Yr Andes wedi tyfu o nerth i nerth dros y degawd diwethaf. Yn ddolen cyswllt i drigolion yr Andes, Y Wladfa a Chymru. Erbyn heddiw mae'n bosib darllen 'Y Llais' ar lein, yn galluogi cannoedd mwy i'w mwynhau.
Ar gael ar www.menterpatagonia.org

Noson Lawen 1998
Lizzie Lloyd, Gladys Freeman a Rini Griffiths

Blynyddoedd ynol roeddem yn gwneud 'sketches' yn y dosbarthiadau ac yn cael llawer o hwyl wrth ymarfer a chwilio am y gwisgoedd pwrpasol ar gyfer y perfformiad

Lizzy Lloyd

Trevelin yn dathlu Penblwydd y Dref

Ar y 25 o Dachwedd dan awyr las a heulwen braf daeth trugolion Trevelin allan i ddathlu pen-blwydd y dre. Roedd hi'n 123 o flynyddoedd ers i Rifleros Fontana cyrraedd y Graig Goch uwchben cwm Hyfryd am y tro cyntaf. Fel rhan o ddathliadau Penblwydd y dre fe aeth dros 60 o drigolion Trevelin ar gefn ceffylau i ben y graig Goch. Wedi gwisgo yn wisgoedd traddodiadol y Rifleros, a nifer yn ddisgynyddion o'r arloeswyr gwreiddiol, roedd hi'n olygfa anhygoel. Roedd nifer o siaradwyr Cymraeg hen ac ifanc yr ardal ymysg y grŵp, a allech glywed Trefor Williams, John Davies,

Ellis Williams a Glenda Powell yn sgwrsio yn Gymraeg. Yn dilyn y daith i ben y graig Goch, cafwyd Asado wrth ymyl ysgol 18 (Yr ysgol Gymraeg Cyntaf yng Nghwm Hyfryd) wrth i'r ceffylau orffwys ar ôl y daith hir o dros 15 milltir.
Yn orymdaith flynyddol y dre y bore wedyn, roedd cynrychiolaeth gryf gan ysgol Gymraeg Trevelin. Wedi gwisgo yng ngwisgoedd traddodiadol Cymreig, ac o dan arweiniad athrawon ifanc yr ysgol; Jessica Jones, Eliana Olivier ac Esaia Grandis roedd y plant yn cerdded trwy strydoedd Trevelin gyda baneri Cymraeg a balchder yn hanes y dref.
I gloi'r dathliadau fe gynhaliwyd cyngerdd mawr yn y Salon Central Trevelin nos Fawrth 25 o Dachwedd. Clywyd corau Esquel a Threvelin ynghyd a pherfformiadau gan grwpiau dawnsio gwerin Trevelin a Coleg Camwy sydd wedi bod yn ymweld â'r ardal a mwynhau'r dathliadau pen-blwydd.
Penblwydd Hapus iawn i Drevelin!!

Ymwelwyr Ifanc o Gymru yn creu argraff

Criw Yr Urdd yng nghysgod Gorsedd Y Cwmwl, Casa Verde, Trevelin

Yn ystod wythnosau olaf mis Hydref fe groesawyd 21 o bobl ifanc i'r Wladfa, ar gynllun unigryw iawn. Bu Menter Iaith Patagonia ac Urdd Gobaith Cymru yn cydweithio i gynnig profiad arbennig iawn i dri pherson ifanc o saith ysgol Uwchradd Gymraeg ar draws De a Gorllewin Cymru. Yn ystod eu hymweliad bu disgyblion Ysgolion Y Preseli, Maes Yr Yrfa, Gwyr, Rhydywaun, Plas Mawr, Rhydfelen a Chwm Rhymni gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r Gymuned Gymraeg ym Mhatagonia trwy beintio ysgolion yr Andes, dysgu sesiynau plant yn yr ysgolion, cystadlu yn Eisteddfod y Wladfa a gwirfoddoli yn ystod seremoni'r Orsedd. Roedd yn gyfle i bobl ifanc Cymru wneud gwahaniaeth a dangos i ieuenctid Patagonia fod yr iaith Gymraeg yn fyw ymysg y Cymry ifanc. Dywedodd Jessica Jones, un o athrawon Ysgol Gymraeg Yr Andes: 'Mae'n braf gweld grŵp o bobl ifanc llawn egni a hwyl yma ym Mhatagonia sydd eisiau gweithio a mwynhau trwy'r Gymraeg. Dydyn ni ddim wedi arfer gweld grwpiau o bobl ifanc yma, ond mae'r ymweliad yma wedi newid y ddelwedd sydd gan bobl ifanc lleol o'r Cymry mewn ffordd bositif i a w n '
Yn ogystal â'r profiadau gwirfoddoli, roedd y criw ifanc wedi manteisio ar ochr ddiwylliannol y Wladfa wrth fynychu Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel Y Gaiman a Thwmpath mawr i bobl ifanc Trevelin. Roedd hefyd cyfle i weld y Morfilod yn Peninsula Valdes a rafftio Dwr gwyn lawr yr afon Corcovado yn mynyddoedd Yr Andes.
Yn ôl Dafydd Llŷr, Ysgol Maes Yr Yrfa: 'Mae'r pythefnos diwethaf wedi bod yn anhygoel. Un o'r profiadau bydda'i byth yn anghofio. Dwedodd Rachel Morgan, Ysgol Rhydywaun; Diolch yn fawr iawn am y brofiadau a chyfleuoedd arbennig rydw i wedi derbyn dros y pythefnos diwethaf. Trwy'r daith dwi'n teimlo fel fy mod i wedi newid fel person – mae'r daith wedi rhoi mwy o hyder i mi ac wedi fy ysbrydoli i lledaenu'r cymdeithas a iaith Gymraeg yn fy mhentref nol adref. Mae'r daith wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor frientiedig ydym ni i allu derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac rydw i yn ddiolchgar am y cyfle i allu cwrdd a ffrindiau newydd trwy defnyddio'r iaith. Dwi'n teimlo fel bod y daith wedi caniatau ni i ysbrydoli'r pobl ifanc y Wladfa.
Mae'n anhygoel i ffeddwl mai oherwydd yr iaith Gymraeg yn unig mai'r daith hon wedi digwydd. Y cysylltiad sydd gennym ni yw trwy iaith, felly wrth feddwl am hyn, mae'n gwneud i mi deimlo'n hynod o ddiolchgar a falch o'r ffaith fy mod yn gallu siarad iaith y nefoedd.
Diolch mawr i arweinyddion y daith Geraint Scott, Hywel Roberts ac Eleri Mai Thomas.

'Abuelas Galesas' yn dysgu sgiliau newydd

Mae neiniau Esquel wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf yn dysgu sgiliau newydd. Erbyn hyn maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur ac yn gallu danfon a darllen e-byst oddi wrth deulu a ffrindiau. Mae'r merched wrth eu boddai wrth dderbyn e-byst ac yn enwedig lluniau o'r teulu sydd yn byw ar ochr arall y Wladfa neu draw yng Nghymru.
'Rhydych chi byth rhy hen i ddysgu sgiliau newydd, mae'r merched wedi cadarnhau hwn i mi. Cyn dechrau'r cwrs doeddwn nhw ddim yn gwybod un pen o'r llygoden i'r llall, ond erbyn hyn maent yn hyderus wrth yrru ebyst. Beth am ddanfon neges fach iddyn nhw? Er mwyn cael ychydig o ymarfer dros y gwyliau!'
Meddai James Williams, sy'n dysgu'r merched.

Lizzy Lloyd(lizzeja78@yahoo.com.ar), Esther Hughes (esthertecka@yahoo.com.ar, Elvira Roberts (elviroberts428@yahoo.com.ar a Shirley Freeman (shirleybellavista@yahoo.com.ar)

Menter PATAGONIA

Gair o Brifddinas Cymru gan Gwilym

Yn y lle cyntaf llongyfarchiadau I "Llais yr Andes" ar ddathlu deng mlynedd ers i'r rhifyn cyntaf ymddangos a phob llwydd yn y dyfodol.

Dwy'n sgrifennu hyn o erthygl yng Nghaerdydd cyn i mi gychwyn am y wladfa mewn pryd i fynychu Eisteddfod y Wladfa a chymryd rhan yn seremonïau'r orsedd. Fy enw yn yr Orsedd ydy Gwilym Caerdydd!

Nol ym Mis Ebrill cynhaliwyd cyfarfod yng Nghaerdydd I sefydlu ??? Y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin gan fod cangen Yn y Gogledd ers nifer o flynyddoedd. Etholwyd dwy gynt o'r Andes yn aelodau o'r pwyllgor cyntaf sef Sandra de Pol gynt o Drevelin ac Elvira Mosley (gynt Awstin) gynt o Drevelin.

Y gangen wedyn yr oedd yn gyfrifol am drefnu pabell Cymdeithas Cymru - Ariannin ar faes Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd nol ym mis Awst. Cafwyd hwyl ar y gwaith a bu'r babell yn brysur drwy'r wythnos yn croesawu pobl o'r Wladfa a charedigion agos. Un o uchel bwyntiau'r wythnos i ni oedd ymweliad Côr Merched y Garth a'r babell i ganu rhan o Awel R. Bryn Williams i Batagonia hefo Nan merch R. Bryn Williams yn bresennol yn gwrando arnyn nhw.

Yn ystod yr Haf hefyd croesawyd Jessica Jones Trevelin, Enrique Boder Green Trevelin, Glenda Powell Esquel a Diana Jenkins Esquel I Gaerdydd gan eu bod hwythau yn mynychu Cwrs Cymraeg Prifysgol Caerdydd ân ddau fis. Buon nhw'n gweithio'n galed i wella eu Cymraeg cyn dychwelyd i'r Andes. Roedden nhw'n bresennol yng Ngŵyl y Glaniad yn y Bala yn ogystal â'r Eisteddfod yng Nghaerdydd.

Ym mis Hydref cynhaliodd Cangen y De eu cyfarfod cyntaf ers sefydlu'r gangen ar ffurf social/Te parti yng Nghaerdydd a death bron deugain ynghyd i fwynhau te a chwis ac adloniant. Roedd nifer o Batagonia yn bresennol gan gynnwys Ximera Roberts gynt o Drevelin ond sy bellach yn byw yn Ninas Abertawe; Elvira Moseley (gynt Awstin) gynt o Drevelin ond sy bellach yn byw yn nhre Port Talbot a Liliana Evans (gynt Williams) gynt o Esquel ond sy bellach yn byw yn nhre Penarth ger Caerdydd. Methodd Sandra de Pol gynt o Drevelin ac Ana Clara Warren (gynt Cantero Simms) gynt o Drevelin body n bresennol yn y social/Te Parti. Roedd Azul merch Sandra yn un o'r siaradwyr yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymru-Ariannin ar faes Eisteddfod Caerdydd a swynodd hi'r gynulleidfa niferus gan ei huodledd. Erbyn hyn, mae hi'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio ieithoedd.

Cyn y Nadolig mae aelodau o Gangen y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin yn bwriadu mwynhau darlithoedd ym Mhrifysgol Caerdydd I wrando ar yr hanesydd Dafydd Tudur yn siarad am y Wladfa Gymreig ym Mrasil a Walter Ariel Brooks gynt o Gomodoro Rivedavia yn siarad am y Gymuned Gymreig ym Muenos Aires.

Gwilym E. Roberts, Caerdydd

Er gwaetha pawb a phopeth...

Gan Clare Whitehouse

Pa un ydy dy hoff dymor di? Wyt ti'n un sy'n hoffi gorwedd yn haul yr haf neu o dan goeden yn darllen neu synfyfyrio? Neu wyt ti'n hoffi iawn o'r stwff gwyn na er mwyn mynd i sgio neu eirafyrddio (James)? Mae eraill yn hoffi'r gaeaf..pan does dim rhaid mynd allan! Yn eistedd yn agos at y tân yn clywed y glaw yn bwrw ar y to – clyd ond ydy? Mae lliwiau'r hydref yn anhygoel yma yng Nghwm Hyfryd, y melyn a'r brown a'r oren a'r golau clir a'r aywr las ond tinc o oerni yn yr awel... Ond heb os nac oni bai mae'r gwanwyn yn amser arbenning iawn i ni i gyd a mwy eleni nac erioed!

Am flwyddyn i ddod i adnabod ein hardal ni yma yn yr Andes! Siwr bod y criw ddaeth efo Rhys Meirion wedi alaru yn llwyr wrth weld y llwch yn disgyn a'r awyr yn troi yn rhwy felyn-ddu wrth i losgfynydd Chaiten ein hatgoffa bod natur yn fwy na dyn! Cyn hynny wrth gwrs roedd tân coedwigol wedi bygwth tref Trevelin a drwy wyrth a gwaith caled iawn y dynion tân trodd ar y funud olaf i ffwrdd i'r cyfeiriad arall. Blwyddyn y llwch yn wir ond erbyn hyn mae natur unwaith eto wrthi yn adfywio'r tirlun o'n cwmpas.

Nid oes rhaid edrych yn bellach na'r ardd o flaen y ty lle rydw i wrthi yn ysgrifennu - glaswellt hir gwyrdd (rhy hir efallai..gwaith i mi ar ol gorffen hwn!), dail ar y coed amrywiol yn egino a'r coed ceirios yn blodeuo efo'u blodau gwyn persawrus. Mae sawl pâr o wenoliaid wedi bod wrth i yn adeiladu eu nythod o dan y *chapas* a cyn hir bydd y teithiau di-bendraw i nol bwyd i'r cywion yn waith cyson i'r rhieni. Mae'r ci wrth ei fodd yn hel yr adar i gyd o'i ardd o ac felly yn anffodus does dim *teros* (cornchwiglod?) yn nythu eleni yn y darn o ardd wrth y llwyni ac mae'r parotiaid oedd yma mewn heidiau enfawr ychydig o amser yn ol wedi tawelu ac yn wir rydyn ni'n colli clywed eu cwyno yn y boreau – ond ydyn nhw fel hen wragedd yn dadlau?! Rydyn ni'n deffro i swn y *bandurrias* (cylfinir) yn hedfan o'u noddfa gyda'r nos i fwydo ar y cauau gerllaw.

Ond ydy natur yn wyrthiol? Mae'n mynnu parhau gyda'i phatrymau o hyd ac yn wir mae'r gwanwyn yn amser llawn gobaith i ni gyd. Mae'r bywyd yma yn gymysgedd rhyfedd o dda a drwg a nid yw'n bosib cael yr un heb a llall - y peth pwysig ydy ffydd a gobaith am y dyfodol ac fel y dwedodd ein hen ffrind Dafydd Iwan 'er gwaetha pawb a phopeth ryn ni yma o hyd'!

Y Gornel Reseitiau

Penblwydd hapus I Llais yr Andes, I ddathlu gwnewch deisennod bach modryb Connie.

Cynhwysion

½ cwpanaid o siwgr brown
½ cwpanaid o fenyn
1 llwy fwrdd o fel
1 llwy de o soda (bicarbonate)
1 cwpanaid o Qwaquer
1 cwpanaid o flawd codi
Ychydig o ginger (canela) sinamon

Dull:Cymysgwch y menyn, siwgr, a'r mêl.
Mewn cwpanaid o ddŵr cynnes, rowch soda, nes ei brownio
Cymysgwch y blawd a'r Qwaquer
Rowch gyda'r cymysged cyntaf, a'r dŵr bob yn ychydig.
Hurwch dun gyda menyn. Rowch y gymysgfa a'i goginio mewn popty, nes ei bod o wedi brownie. Ar ôl oeri, cymysgwch siwgr a sudd lemwn a rowch drosto fo.

Gan Shirley Freeman

Diolch i bawb sydd yn gweithio er mwyn i ni gael 'Llais yr Andes' bob hyn a hyn ers 10 mlynedd. Mae yn ddolen gyswllt rhwng y dysgwyr a'i gilydd. Penblwydd Llawen iawn! A disgwyliwn am 10 mlynedd arall.

Esther E Hughes

"Yn meddwl amdanoch ar achlysur arbennig yn eich hanes yn yr Andes. Yn wir, mae'n garreg filltir.Diolch yn y lle cyntaf i'r rheiny welodd werth mewn cychwyn Llais yr Andes. Diolch i'r sawl sydd wedi cyfrannu i'r papur bro hwn ar hyd y degawd diwetha ac i chi'r darllenwyr am ei gefnogi. Mae Llais yr Andes yn rhoi cyfle gwych i'r sawl sydd am fentro ysgrifennu. Dyna sut y mentrais innau arni flynyddoedd mawr yn ol drwy anfon erthygl i bapur newydd. Yna mentro, maes o law, i fyd y nofel...mynd ati i gyhoeddi pedair nofel wreiddiol ac yna trosi pedair nofel arall o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Pwy a wyr na wnaiff cyfrannu pwt bach nawr ac yn y man i'ch papur bro yn yr Andes eich ysgogi a'ch ysbrydoli i ysgrifennu campwaith yn y diwedd?

Daliwch ati a hwyl gyda'r dathlu.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar at dderbyn y rhifyn nesaf!

Hazel Charles Evans—Cadeirydd Cymdeithas Cymru Ariannin a chyn athrawes yr Andes

"Ty Nain"

Dw i'n licio tŷ nain, y gorau'n y byd
Y tŷ bach tlysa, yn ngwaelod y stryd
Mae tŷ nain mor dwt, pob dim yn ei le
Pan af i yno, caf groeso a the
Mae'r bwyd yn ty nain yn blasus dros ben
Cyw wedi rhostio, a theisen fawr wen
Pwdin a grefi, a'r bara bach crwn
Ni chefais erioed dim tebyg I hwn!
Caf chwarae'n yr ardd mewn pwll fach o ddwr
Os glychaf fy'n nrhaed, wnaeth nain ddim roi stwr
Ac os fydd hi yn oer a tan yn y stof
Caf dwymo fy'm whaed yn eistedd ar stol
A pham ddaw y nos, ar awel yn fain
Caf wely bach clyd a chusan gan nain

"Libriana"

Libriana ydy Gweni Evans de Williams

Y Deinosor Porffor

Roedd Dinor yn byw ym Mhatagonia.
Deinosor proffer roedd Dinor.
Roedd o'n hoffi byw yn y Wladfa.
Roedd o'n rhedeg gyda'r guanacos, yn chwarae cuddio efo'r ysgwarnogod, yn canu gyda'r adar bach a siarad a'r Condor.
Pob bore roedd o'n mynd at y llyn I edrych ar y pysgod lliwiog yn dawnsio allan o'r dwr.
Un diwrnod, aeth o I fewn yn araf, araf, ag O! syndod!! Roedd o'n gallu nofio!!Roedd y pysgod bach yn clapio: Hwre!! Hwre!!
Ardderchog!! – meddai'r cregyn yng nghwaelod y llyn.
Ar ol nofio am dipyn a fwynhau'r dwr, aeth allan.
Roedd pawb yn ei dderbyn fel arwr!! Ac oedd pawb yn dawnsio menw cylch.
Roedd gan Dinor nifer o ffrindiau nawr…..
Wedyn aeth I gysgu dan y coed yn hapus, hapus.

gan Nieves

Gladys Jones de Cid ydy Nieves. Ennillodd y gwobr 1af yn Eisteddfod Y Wladfa 2008

Deialog Gan Cecilia Holmes, myfyrwraig cwrs Wlpan

A: Helo!
B: Helo, Sami! Sut wyt ti?
A: O! Siân, Sut mae?
B: Golew achos bues i'n yr ardd neithiwr. Roedd hi'n oer! Ac ro'n i'n gwisgo crys T.
Mae annwyd arno i nawr. Alchis!
A: O! Gwnes i'r swper!! Wyt ti'n hoffi mêl a Llaeth?
B: Ydw. Atchis!
A: Felly, rhaid i ti yfed llaeth gyda mêl cyn i ti ddod.
B: Cyn i mi fynd i'r gwely!
A: Mae'n anodd dy ddeall di. Bydda i'n disgwyl amdanat ti!
B: Mm – Bydda i'n dy dŷ di am hanner awr wedi naw.
A: Ardderchog!! Tan tro nesaf. Siân